Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

Nodiadau Cymorth ar gyfer Adroddiadau Cwblhau

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Cyngor Celfyddydau Cymru | Medi 2015

	Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

Cynnwys

Cyflwyniad 2
Beth yw pwrpas yr Adroddiad? 2
Beth fydd yn digwydd i'r adroddiad? 3
Sut i lenwi eich Adroddiad Cwblhau 3
Fformatau Amgen a Hygyrch 4

Adran 1: Eich Prosiect 5
Adolygu eich prosiect 5
Adolygu cyllid eich prosiect 7
Cydnabod cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru 8

Adran 2: Manylion y Prosiect 9

Adran 3: Lleoliad y Prosiect 13

Adran 4: Sut wnaethom ni? 14

Adran 5: Datganiad 15

Adran 6: Atodiadau 16
Sut i lanlwytho eich dogfennau 16
Gwybodaeth ategol arall 16

Adran 7: Adolygu fy Adroddiad Cwblhau 17

Mae'r holl ddogfen hon wedi'i hyperddolennu. Wrth glicio ar y penawdau ar y tudalen cynnwys, eir â chi'n syth i'r adran berthnasol. Cliciwch i ddychwelyd i'r tudalen cynnwys.

Nodiadau Cymorth ar gyfer Adroddiadau Cwblhau

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Cyflwyniad

Croeso i'r Nodiadau Cymorth ar gyfer Adroddiadau Cwblhau gan sefydliadau. Dylech ddefnyddio'r Nodiadau Cymorth hyn os cawsoch arian trwy ffrwd Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Grantiau'r Celfyddydau ar gyfer Sefydliadau

Llenwi adroddiad cwblhau ar gyfer eich prosiect yw'r cam olaf yn y broses o wneud cais, ac mae'n bwysig eich bod chi'n cyflwyno adroddiad sydd mor fanwl a chywir â phosibl a'i ategu â thystiolaeth briodol.

Bwriad y nodiadau hyn yw eich cynorthwyo i lenwi'r adroddiad cwblhau gan ddefnyddio ein system ar-lein. Byddwn ni'n esbonio sut i fynd ati i wneud hyn, ac yn darparu arweiniad i'r wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei rhannu â ni am eich prosiect gorffenedig.

Byddwn ni'n dweud wrthych hefyd pam ein bod ni'n gofyn am y wybodaeth, a sut byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a gawn gennych.

Dylech gyflwyno'ch Adroddiad Cwblhau cyn pen 1 mis ar ôl diwedd eich prosiect.

Beth yw pwrpas yr Adroddiad?

Fel corff sy'n dosbarthu Cyllid y Loteri Genedlaethol, mae gofyn i ni werthuso a yw'r grantiau rydyn ni'n eu dyrannu'n cael eu gwario mewn ffordd briodol. Mae adroddiadau cwblhau yn ein helpu ni i fodloni'r gofyniad monitro yma. Maent yn darparu gwybodaeth werthfawr sy'n ein helpu ni i ddeall y gwahaniaeth a wnaeth ein grant, ac effaith eich prosiect. Mae hyn yn wirioneddol bwysig am ei fod yn ein helpu ni i asesu effaith ein cyllid.

Rydyn ni'n aml yn gorfod cyflwyno adroddiadau sy'n dangos beth rydyn ni wedi ei ariannu, pa weithgarwch a gyflawnwyd, a'r gwahaniaeth y mae ein cyllid wedi ei wneud, a bydd eich adroddiad cwblhau yn chwarae rhan annatod yn hyn o beth.

Mae'r wybodaeth a gasglwn o'r adroddiadau cwblhau yn ein helpu ni i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'n sicrhau bod ein gwaith wrth ddatblygu polisïau a strategaethau yn cael ei fwydo gan ddata a gwybodaeth fanwl sy'n adlewyrchu sefyllfa gyfredol y celfyddydau yng Nghymru. Mae'n gallu'n helpu ni i dargedu ble y mae'r angen mwyaf am ein cyllid. Mae'r adroddiadau cwblhau yn darparu tystiolaeth hanfodol ar ein cyfer ni hefyd, fel y gallwn weithredu fel eiriolydd dros werth a phwysigrwydd y celfyddydau.

Beth fydd yn digwydd i'r adroddiad?

Bydd y swyddogion yn adolygu eich adroddiad cwblhau a'ch datganiad ariannol. Byddwn ni'n cysylltu â chi os oes angen gwybodaeth fanylach arnom.

Rydyn ni'n gwybod nad yw prosiectau'n mynd yn ôl y disgwyl bob tro ac yn ystyried pob adroddiad cwblhau fesul achos unigol. Yn y mwyafrif o achosion, pan fyddwn wedi cwblhau ein hadolygiadau byddwn ni'n gallu rhoi gwybod i chi beth fydd gwerth unrhyw daliad terfynol sy'n ddyledus i chi. Byddwn ni'n dweud wrthych hefyd pryd y dylai'r taliad eich cyrraedd chi. Wedyn bydd modd i ni gau'r grant.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fyddwn ni'n gallu rhyddhau'r taliad terfynol rydych chi'n ei ddisgwyl. Neu, mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn i chi ad-dalu rhywfaint o'r cyllid grant rydych chi eisoes wedi ei gael.

Gallai hyn ddigwydd am nad ydych wedi cyflawni eich prosiect yn ôl y disgrifiad a roesoch yn eich cais, neu am fod swm eich gwariant ar y prosiect neu'r swm o incwm a godwyd gennych yn sylweddol wahanol i'r gyllideb a gofnodwyd ar gyfer eich prosiect. Neu, mae'n bosibl bod yna resymau eraill sydd wedi dod i'r amlwg yn eich adroddiad cwblhau sy'n golygu bod angen i ni adolygu swm terfynol y cyllid grant y mae gennych hawl i'w gael.

Os na fyddwch chi'n cyflwyno adroddiad cwblhau boddhaol, neu os na fyddwch chi'n cydymffurfio â chais i ad-dalu swm o gyllid grant, ystyrir eich bod yn diffygio ar eich cytundeb ariannol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, ac ni chewch gyflwyno ceisiadau pellach am gyllid yn y dyfodol.

Os byddwch chi'n cyflwyno cais i ni yn y dyfodol, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth o'ch adroddiad cwblhau wrth asesu'ch cais newydd, am ei bod yn cyfrannu at ein gwybodaeth am eich sefydliad, eich gweithgareddau blaenorol a'i hanes o ran perfformiad.

Yn olaf, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yn eich adroddiad cwblhau at ddibenion eiriolaeth. Os oes angen, gallwn gysylltu â chi i drafod y peth ymhellach.

Sut i lenwi eich Adroddiad Cwblhau

Gallwch gyrchu ein system ar-lein yma. Bydd angen eich manylion mewngofnodi (eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair) arnoch i fewngofnodi.

Cyflwyno adroddiad cwblhau yw un o ofynion eich grant, felly mae hi yn yr adran Gofynion. Mae'r tab yma yng nghornel uchaf tudalen eich cyfrif ar y chwith.

Wrth weithio ar eich adroddiad cwblhau ar-lein, mae'n werth cofio:

- Y cewch lenwi eich adroddiad cwblhau mewn un tro, neu weithio arno fesul tipyn ar wahanol adegau

- Cewch lenwi adrannau'r adroddiad cwblhau ym mha bynnag drefn y dewiswch chi, ond ni chewch gyflwyno'ch adroddiad cwblhau nes bod yr holl adrannau'n gyflawn

- Os yw'ch adroddiad cwblhau ar agor ar eich cyfrifiadur, ond nad ydych chi'n gweithio arno am ddwy awr, cewch eich allgofnodi'n awtomatig o'n system ar-lein. Bydd hyn yn golygu eich bod chi'n colli unrhyw waith nad ydych chi wedi ei gadw erbyn hynny.

Bydd angen i chi gyfeirio at eich cais gwreiddiol, ac unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt ar y cyd â ni, wrth lenwi'ch adroddiad cwblhau.

Bydd copi o'ch cais ar gael i chi ei weld ar ein system ar-lein bob amser. Bydd y copi yn yr adran "ceisiadau a gyflwynwyd".

Fformatau Amgen a Hygyrch

Weithiau mae yna resymau penodol pam fod pobl yn ei chael hi'n anodd defnyddio ein system ar-lein neu gyrchu ein gwasanaethau. Os cewch unrhyw anawsterau gyda phroses ein hadroddiad cwblhau neu os ydych chi'n rhagweld trafferthion, neu os oes arnoch angen cymorth i gyrchu ein gwasanaethau neu'n gwybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Gwybodaeth i drafod y math o gymorth y gallwn ei ddarparu. Mae ein manylion cyswllt yma.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Adran 1: Eich Prosiect

Yn yr adran hon, rydyn ni'n gofyn i chi werthuso eich prosiect. Bydd hyn yn ein cynorthwyo ni i ddeall pa weithgaredd a gyflawnwyd, beth oedd ei effaith, a beth rydych chi wedi ei gyflawni. Dyma'ch cyfle chi i ddweud wrthym am eich prosiect, a dangos sut aethoch chi ati i ddefnyddio ein cyllid.

Gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio nôl at eich cais gwreiddiol, a meddwl sut y cymharodd eich prosiect â'ch disgwyliadau.

Os ydych chi wedi cwblhau eich gwerthusiad eich hun o'r prosiect, gallwch ddefnyddio'ch canfyddiadau i lenwi'r adran hon. Dylech gyflwyno'ch adroddiad gwerthuso fel atodiad. Gallwch wneud hyn yn adran 6.

Adolygu eich prosiect

Pa mor dda ydych chi'n meddwl oedd eich prosiect wrth fynd ati i ddatblygu sgiliau, hyfedredd a galluoedd y bobl sy'n gweithio ym myd y celfyddydau yng Nghymru?

Esboniwch eich ateb trwy ddweud rhagor wrthym am ddeilliannau allweddol eich prosiect

Rydyn ni'n defnyddio'r gair "deilliannau" i olygu beth ddigwyddodd o ganlyniad i'ch prosiect, felly

- Dywedwch wrthym yn gryno am y prosiect a gyflawnwyd.
- Dywedwch wrthym a gafwyd unrhyw newidiadau i'r prosiect a gynigiwyd yn eich ffurflen gais. Beth oedd y rheswm am y newidiadau hyn?
- Dywedwch wrthym beth aeth yn dda, a beth nad aeth cystal.
- Dywedwch wrthym a oeddech chi'n fodlon ar ansawdd y prosiect a gyflawnwyd ac ag ansawdd y profiad a gafodd aelodau'r gynulleidfa a'r cyfranogwyr.
    - Rhannwch unrhyw adborth a gawsoch am ansawdd eich prosiect â ni.

Dywedwch wrthym am effaith eich prosiect

Rydyn ni'n defnyddio'r gair "effaith" i olygu canlyniadau eich prosiect, felly

- Dywedwch wrthym a wnaethoch chi gyflawni beth oeddech chi'n bwriadu ei gyflawni:
    - A lwyddodd eich prosiect i ddiwallu'r angen / mynd i'r afael â'r galw roeddech chi wedi ei nodi?
    - A lwyddodd eich prosiect i ddiwallu'r nodau a'r amcanion a ddisgrifiwyd yn eich cais?
- Dywedwch wrthym sut aeth y prosiect yn eich barn chi, o ran y pethau positif a negatif, a beth oedd cyflawniadau allweddol y prosiect.
- Dywedwch wrthym am effaith tymor hir eich prosiect.
    - Beth yw etifeddiaeth y prosiect?
    - A fyddwch chi'n gallu cynnal hyn mewn unrhyw ffordd?

- Dywedwch wrthym am effaith amgylcheddol eich prosiect:
    - Beth yw effaith tymor byr eich prosiect?
    - Beth yw effaith tymor hir eich prosiect?

Dywedwch wrthym am fanteision eich prosiect

Rydyn ni'n defnyddio'r gair "manteision" i olygu'r newidiadau a'r gwelliannau cadarnhaol sydd wedi digwydd yn rhinwedd eich prosiect.

Gwyddom fod prosiectau a ariannir drwy ffrwd Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol yn gosod sylfaen ar gyfer datblygiant yn y dyfodol a fydd, yn y tymor hir, yn cael effaith ar ansawdd y gwaith yr ydych chi, neu unigolion creadigol proffesiynol eraill yn cyflwyno. Hoffwn glywed sut mae'r prosiect wedi bod yn fanteisiol i'ch eich sefydliad a sut, yn ganlynol, bydd yn buddio'r cyhoedd yn y dyfodol.

- Dywedwch wrthym sut mae eich prosiect wedi bod yn fanteisiol:
    - i'ch sefydliad (os oedd eich prosiect am gyrchu hyfforddiant)
    - i'r buddiolwyr a fwriadwyd (os oedd eich prosiect am ddarparu hyfforddiant)
    - i'r celfyddydau yng Nghymru yn gyffredinol / y sector o'r celfyddydau y mae'ch sefydliad yn gweithio ynddo.

- Dywedwch wrthym am botensial eich prosiect i fuddio'r cyhoedd yn y dyfodol
- Ai'r rhain oedd y manteision a ragwelwyd?
- A welwyd unrhyw fanteision annisgwyl?

Dywedwch wrthym sut aeth eich prosiect i'r afael â'r rhwystrau i ymgysylltu ac estyn allan at yr amrywiaeth ehangaf bosibl o bobl

Rydyn ni am i'r celfyddydau fod yn fwy cynhwysol ac ymgysylltiol, felly rydyn ni am i'r sefydliadau rydym yn eu hariannu ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnânt. Felly,

- Dywedwch wrthym ba mor dda y gwnaethoch chi wrth estyn allan at bawb a allai fod wedi elwa ar eich prosiect. Os nad oedd hyn mor effeithiol ag y byddech wedi ei ddisgwyl, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

Os oedd eich prosiect am ddarparu hyfforddiant:

- Dywedwch wrthym sut aeth eich prosiect i'r afael â'r rhwystrau i ymgysylltu ac estyn allan at yr amrywiaeth ehangaf bosibl o bobl
- Dywedwch wrthym sut aethoch chi ati i dargedu grwpiau penodol, ac yn enwedig y rhai â "nodweddion gwarchodedig". (Mae rhagor o wybodaeth am "nodweddion gwarchodedig" yn adran 2)

Dywedwch wrthym beth rydych chi wedi ei ddysgu trwy gyflawni'r prosiect hwn

- Dywedwch wrthym beth rydych chi wedi ei ddysgu wrth gyflawni'ch prosiect.
- Dywedwch wrthym am unrhyw anawsterau a gawsoch, a sut aethoch ati i oresgyn y rhain. Gallai'r rhain fod yn anawsterau ariannol, creadigol neu weinyddol, er enghraifft, neu'n broblemau a oedd yn gysylltiedig â marchnata, personél neu raglennu.
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol yn y dyfodol o ganlyniad i gyflawni'r prosiect hwn?

Dywedwch wrthym am unrhyw agwedd o'ch prosiect sydd, yn eich barn chi, yn esiampl o arfer da - neu'n arloesol (ac y byddech yn hapus eu rhannu â'r sector ehangach).

- Dywedwch wrthym pam eich bod chi'n teimlo bod eich prosiect yn esiampl o arfer da neu'n arloesol

Adolygu cyllid eich prosiect

Esboniwch unrhyw newidiadau o bwys rhwng cyllideb wreiddiol eich prosiect a'r ffigurau gwirioneddol o ran incwm a' gwariant.

Sut aethoch chi ati i reoli'r newidiadau hyn? Er enghraifft, sut lwyddoch chi i unioni'r diffyg os cynyddodd cost eich prosiect, neu os na chawsoch yr holl gyllid partneriaeth yr oeddech wedi disgwyl ei chael?

Po fwyaf y gallwch ei ddweud wrthym wrth gyflwyno'ch ffurflen, po gyflymaf a hawsaf y bydd hi i ni i gyfrif eich taliad terfynol, neu gau eich grant.

Atodiad: Datganiad Ariannol

Rhaid cyflwyno datganiad ariannol gyda'ch adroddiad cwblhau. Rhaid i hyn fod ar ein templed ar gyfer datganiadau ariannol, y gallwch ei lawrlwytho o'r adroddiad cwblhau.

Rhaid cyflwyno datganiad ariannol am fod hyn yn rhan hanfodol o'n hadolygiad o'ch prosiect ar ôl ei gwblhau.

Rhaid i'ch datganiad ariannol gynnwys cyfanswm cost gweithgarwch y prosiect rydyn ni wedi cytuno i'w ariannu, a'r incwm a godwyd gennych chi i dalu costau'r prosiect.

Cewch lanlwytho'ch datganiad ariannol yn adran 6 o'r adroddiad cwblhau.

Defnyddio Templed y Datganiad Ariannol

Rydyn ni'n defnyddio'r templed ar gyfer datganiadau ariannol i'ch helpu chi i gyflwyno'ch gwybodaeth ariannol mewn ffordd glir a strwythuredig. Mae'n dilyn yr un strwythur ac yn defnyddio'r un penawdau â'r gyllideb a gyflwynwyd yn eich cais gwreiddiol. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'r un penawdau ar gyfer y ffigurau ag a ddefnyddiwyd yng nghyllideb wreiddiol y prosiect. Bydd hyn yn ein cynorthwyo ni i gymharu ffigurau'r gyllideb o ran incwm a gwariant â'r ffigurau go iawn o ran incwm a gwariant.

Bydd y templed yn eich cynorthwyo chi i lenwi eich datganiad ariannol. Mae'n cynnwys pedair tudalen (neu tab), sef:

- Tudalen grynhoi
- Tudalen incwm gwirioneddol
- Tudalen gwariant gwirioneddol
- Rhestr gyfeirio

Bydd y templed yn cyfrifo'r is-gyfansymiau'n awtomatig ac yn arddangos negeseuon i'ch cynghori, i ofyn cwestiynau ac i'ch atgoffa. Os gwelwch chi neges goch, bydd angen adolygu'r ffigurau cyn y gallwch lanlwytho'ch datganiad ariannol.

Cewch lenwi'r blychau llwyd ar y daenlen â thestun a ffigurau, ond ni chewch newid y blychau gwyn. Dylech grynhoi eich ffigur i bunnoedd cyfan (£). Bydd rhai o'r blychau'n gofyn i chi ddethol o ddewislen.

Os nad oes digon o le ar y templed, neu os ydych am ddarparu gwybodaeth bellach am eich datganiad ariannol, cewch lanlwytho hyn fel gwybodaeth **Arall** yn adran 6.

Cydnabod cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru

Wrth dderbyn ein cynnig grant, roeddech chi'n cytuno i gydnabod ein cyllid ar raddfa mor eang â phosibl trwy fodloni ein gofynion achredu. Dywedwch wrthym yma sut rydych chi wedi cydnabod y ffaith fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ariannu eich prosiect.

Atodiad: Esiamplau o ddulliau o gydnabod ein cyllid

Rhaid cyflwyno esiamplau o sut aethoch chi ati i gydnabod ein cyllid trwy gydol eich prosiect. Gallai hyn gynnwys deunyddiau print neu ar-lein, fel datganiad i'r wasg, ond rhaid iddo ddangos eich bod wedi cydnabod ein cyllid a'ch bod chi wedi defnyddio'r logos cywir yn y ffordd briodol.

Mae cyflwyno'r esiamplau hyn yn orfodol, am eu bod yn rhan hanfodol o'n hadolygiad o'ch prosiect. Cewch lanlwytho eich esiamplau yn adran 6 o'r adroddiad cwblhau.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Adran 2: Manylion y Prosiect

Yn yr adran hon, rydyn ni'n gofyn i chi rannu ffeithiau a ffigurau am y prosiect a gwblhawyd. Mae hyn yn rhan bwysig o'ch adroddiad cwblhau am ei fod yn dweud wrthym am rai o ddeilliannau'ch prosiect, fel sawl person a elwodd ar y prosiect, a faint o weithgarwch a gyflawnwyd.

Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro beth sy'n digwydd ar draws Cymru, ac adrodd ar effaith ein cyllid. Mae dangos effaith ein cyllid yn ein helpu ni i ddadlau dros werth a phwysigrwydd y celfyddydau yng Nghymru.

Dyddiadau'r Prosiect

Mae'r dyddiadau rydych chi wedi eu cyflwyno i ni yn yr adran hon eisoes. Os oedd dyddiadau dechrau a/neu orffen go iawn eich prosiect yn wahanol, dylech ddiweddaru'r wybodaeth yma.

Iaith

Yn eich cais, fe ddywedoch pa iaith/ieithoedd y byddech chi'n eu defnyddio wrth gyflwyno'ch prosiect. Dywedwch wrthym yma os oedd unrhyw newidiadau i'r ieithoedd a ddefnyddiwyd.

Mae hi'n bwysig eich bod chi'n dweud hyn wrthym am ein bod ni'n cael ceisiadau cyson i adrodd ar hyn.

Math o gelfyddyd

Rydyn ni'n casglu ac yn monitro gwybodaeth am faint o gyllid a ddyrannwyd i bob math o gelfyddyd. Mae hyn yn ein cynorthwyo ni i adrodd ar sut mae ein cyllid yn cael ei wario, ac yn ein cynorthwyo i ddatblygu strategaethau a pholisïau am y gwahanol fathau o gelfyddyd.

Yn eich cais, fe ddywedoch wrthym beth oedd y prif fathau o gelfyddyd yr oeddech chi'n credu y byddai'ch prosiect yn eu cwmpasu. Yma rydyn ni eisiau clywed beth ddigwyddodd go iawn. Nawr bod eich prosiect wedi dod i ben, hoffem glywed am y mathau o gelfyddyd yn fwy manwl, a chewch ddweud wrthym trwy ddewis y gwahanol ddisgyblaethau, arferion a gweithgareddau a oedd yn rhan o'ch prosiect.

Math o Gelfyddyd: Esiamplau

Cafodd oriel fechan gyllid i lwyfannu arddangosfa ffotograffiaeth ac arddangosfa o ddarluniau. Yn eu cais, fe ddewison nhw'r Celfyddydau Gweledol fel y prif gyfrwng ar gyfer eu prosiect. Yn eu hadroddiad cwblhau, maen nhw'n dewis peintio a ffotograffiaeth o'r rhestr i ddangos y mathau o gelfyddyd yn fwy manwl.

Bydd y tabl isod yn eich cynorthwyo wrth lenwi'r adran hon.

Pennawd celfyddyd:	Mae hyn yn cynnwys yr is-gategorïau canlynol:
Sgrinio sinema a fideo	Pob math o ddarllediadau sgrinio sy'n agored i'r cyhoedd: Sinema'r brif ffrwd, Sinema gelfyddydol, Sinema arbenigol, Ffrydio opera/ballet, theatr yn fyw (fel *The Met in New York*) neu gynnwys amgen arall
Celfyddydau cyfunol a chelfyddydau amlddisgyblaeth	Carnifalau, gwyliau neu achlysuron gwirioneddol amlddisgyblaeth (dylid codio gwyliau un ffocws yn ôl eu math penodol o gelfyddyd)
Crefftau a chelfyddyd gymhwysol	Dylunio, Celfyddyd Gymhwysol, Serameg, Tecstilau (gan gynnwys gwau neu frodwaith), Gemwaith, Gwydr, Metel, Coed (gan gynnwys dodrefn), cyfryngau aml-gyfrwng neu gymysg.
Dawns	Ballet, Dawns gymunedol, Dawns gyfoes, Dawns draddodiadol, Dawns ieuenctid, Dawns diwylliant penodol (gan gynnwys traddodiadol) - Cymreig, Dawns diwylliant penodol (gan gynnwys traddodiadol) - arall (er enghraifft Gwyddelig, Albanaidd, De Asiaidd, Affricanaidd)
Drama a theatr	Ysgrifennu newydd, Drama gyfoes, Drama glasurol, Theatr Gymraeg, Theatr a drama ieuenctid, Theatr i blant a phobl ifanc, Theatr mewn addysg, Meim, Syrcas, Theatr stryd, Theatr gymunedol, Theatr ffisegol, Theatr arbrofol (gan gynnwys theatr weledol a digidol)
Cynhyrchu ffilmiau	Nid ydym yn defnyddio unrhyw is-gategorïau ar gyfer y math hwn o gelfyddyd
Llenyddiaeth	Llenyddiaeth ieuenctid, Barddoniaeth, Adrodd Straeon, Hel Atgofion, Digwyddiadau mewn Llyfrgelloedd, Cyhoeddi (mewn print ac ar y we), Sgyrsiau llenyddol
Cerddoriaeth	Cerddoriaeth diwylliant penodol (gan gynnwys traddodiadol) - Cymreig, Cerddoriaeth diwylliant penodol (gan gynnwys traddodiadol) - arall, Jazz a cherddoriaeth fyrfyfyr, Cerddoriaeth glasurol, Cerddoriaeth boblogaidd, Cerddoriaeth ieuenctid, Cerddoriaeth gyfranogol gymunedol, Cerddoriaeth arbrofol
Opera	Opera, Theatr Gerdd
Celfyddyd gyhoeddus (celf yn y bau gyhoeddus)	Celf a chrefft weledol (mewn lle cyhoeddus), Celfyddyd tirlunio neu amgylcheddol) (Gall Celfyddyd Gyhoeddus fod yn waith celf ar eiddo cyhoeddus neu breifat sydd wedi cael ei gynorthwyo gan gyllid cyhoeddus neu breifat.)
Adloniant theatr	Cabaret, Comedi, Sioeau Cerdd, Pantomeim, Pypedwaith, Sioe Adloniant, Adloniant i Deuluoedd
Y celfyddydau gweledol	Celf Gain, Peintio, Darlunio, Gwneud Printiau, Animeiddio, Celf Graffeg (gan gynnwys darlunio), Celf Fyw, Delweddau Symudol, Cyfryngau Newydd (h.y. digidol), Celf Gyfrifiadurol, Aml-gyfrwng, Celf Sonig, Celfyddyd Perfformio, Ffotograffiaeth, Cerflunio, Gosodweithiau neu gelfyddyd safle penodol

Gweithgarwch

Yn eich cais, rhoesoch amcangyfrif o faint o weithgarwch y byddech yn ei gyflawni, a sawl person fyddai'n elwa ar eich prosiect. Nawr eich bod chi wedi cwblhau eich prosiect, dywedwch wrthym faint yn union o achlysuron neu weithgareddau a gyflawnwyd, a nifer y bobl a elwodd ar eich prosiect. Byddwch mor fanwl â phosibl, a sicrhewch eich bod chi'n cynnwys yr holl weithgarwch a gyflawnwyd yn rhan o'ch prosiect.

Mae'r wybodaeth yma'n bwysig dros ben am ei bod ni'n ei defnyddio i ddangos effaith ein cyllid. Mae'n ein helpu ni i dargedu ein cyllid lle mae'r angen mwyaf amdano hefyd.

Mae'r tabl isod yn esbonio'r penawdau a ddefnyddir yn yr adroddiad cwblhau.

Pennawd	Diffiniad (dyma beth rydyn ni'n gofyn i chi ei ddweud wrthym)
Nifer y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd (1 sesiwn = ½ diwrnod neu lai)	Dwedwch wrthym sawl sesiwn a gyflenwyd gennych i hyfforddeion (mae sesiwn yn golygu hanner diwrnod neu lai).
Nifer y sesiynau hyfforddi yr aed iddynt (1 sesiwn = ½ diwrnod neu lai)	Dwedwch wrthym sawl sesiwn yr aethoch chi neu eich staff iddynt (mae sesiwn yn golygu hanner diwrnod neu lai).
Cyfanswm nifer y presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi a roesoch	Dwedwch wrthym gyfanswm y nifer a ddaeth i bob sesiwn hyfforddi a roesoch.
Nifer y gweithgareddau 'eraill'	Dywedwch wrthym am sawl gweithgaredd neu achlysur a gynhaliwyd nad ydynt yn cyd-fynd â'r categorïau uchod, a'u math (gallwch roi testun a rhifau yn y blwch yma).
Buddiolwyr eraill	Dywedwch wrthym sawl person, a pha fath o bobl a elwodd ar eich gweithgareddau 'eraill' nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau uchod (gallwch roi testun a rhifau yn y blwch yma).

Cyflogaeth

Dywedwch wrthym sawl wythnos o gyflogaeth â thâl a greodd eich prosiect. Mae hyn yn bwysig am ei bod yn ein helpu ni i ddeall effaith economaidd ein cyllid.

Cydraddoldebau

Rydyn ni am i'r celfyddydau yng Nghymru fod yn fwy cynhwysol a deniadol i bawb, felly rydyn ni'n disgwyl i'r sefydliadau rydyn ni'n eu hariannu ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnânt. Rydyn ni eisiau gwybod sut mae ein cyllid yn cael ei ddefnyddio i dargedu ac estyn allan at bobl y mae anghydraddoldeb yn effeithio arnynt.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sôn am bobl â "nodweddion gwarchodedig" ac rydyn ni'n casglu gwybodaeth am y prosiectau rydyn ni'n eu hariannu sy'n cyflwyno gweithgareddau ar gyfer y grwpiau hyn o bobl yn benodol. Y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, rhyw, cyfeiriadaeth rywiol, crefydd neu gredo. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl ar y seiliau hyn.

Yn eich cais, fe ddywedoch chi wrthym a fyddai eich prosiect yn targedu pobl â "nodweddion gwarchodedig" yn benodol. Os oedd unrhyw newidiadau i'r ffordd y targedwyd eich gweithgaredd, dywedwch wrthym yma.

Dylech ddweud wrthym ba mor effeithiol oeddech chi wrth gyrraedd y grwpiau penodol hyn yn adran 1 o'ch adroddiad cwblhau.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Adran 3: Lleoliad y Prosiect

Rydyn ni'n aml yn cael ceisiadau i adrodd ar i ble mae ein cyllid yn mynd. Rydyn ni'n defnyddio codau post i fonitro pa rannau o Gymru sy'n elwa ar ein grantiau. Gallwn eu defnyddio i ddangos i ba raddau y mae ein cyllid yn estyn allan i'r ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi, fel ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Yn eich cais, fe ddywedoch wrthym ymhle y byddai'ch prosiect yn digwydd. Os oedd unrhyw newid i leoliad gweithgarwch eich prosiect, dywedwch wrthym yma.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Adran 4: Sut wnaethom ni?

Rydyn ni am i gyflwyno cais ar gyfer *Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau* fod mor syml â phosibl, ac rydyn ni'n croesawu eich adborth am ein perfformiad ni wrth reoli eich cais.

Caiff eich sylwadau eu hadolygu a'u defnyddio i'n helpu ni i wella ein dulliau o weithredu yn y dyfodol.

Peidiwch â chynnwys sylwadau penodol am eich grant, am na allwn ni ymateb i'r rhain. Yn yr achosion hyn, cysylltwch â'n Tîm Gwybodaeth trwy e-bostio gwybodaeth@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk yn y lle cyntaf, a fydd yn cyfeirio'ch ymholiad at y person mwyaf priodol.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Adran 5: Datganiad

Yn yr adran hon, rydyn ni'n gofyn i chi ddarllen ychydig o wybodaeth bwysig am ein cyfrifoldebau ym maes Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

Mae hi'n bwysig eich bod chi'n deall sut y byddwn ni'n defnyddio ac yn storio'r wybodaeth a gawn gennych, ac mae angen i chi wybod beth i'w wneud os ydych chi'n credu bod unrhyw ran o'r wybodaeth yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol.

Wedyn rydyn ni'n gofyn i chi gadarnhau nifer o ddatganiadau. Mae hyn yn cynnwys dau bwynt pwysig am wybodaeth dan hawlfraint:

- trwy lanlwytho eich deunydd eich hun sydd dan hawlfraint, rydych chi'n rhoi caniatâd i ni gyhoeddi unrhyw ran ohono er mwyn ein helpu ni i ddathlu gwerth ac effaith y celfyddydau

- trwy lanlwytho deunydd pobl eraill sydd dan hawlfraint (er enghraifft ffotograffydd neu wneuthurwr ffilmiau), rydych chi'n cadarnhau eich bod chi wedi cael eu caniatâd i ni gyhoeddi eu gwaith am yr un rhesymau. Byddwch wedi sicrhau bod cydnabyddiaeth addas ar bob eitem o'r fath hefyd.

Trwy roi tic yn y blwch, rydych chi'n llofnodi'r Adroddiad Cwblhau yn electronig ar ran eich sefydliad.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Adran 6: Atodiadau

Dyma'r adran lle cewch lanlwytho eich dogfennau ategol. Mae ein system ar-lein yn galw'r rhain yn atodiadau.

Mae yna rhai atodiadau penodol y mae'n rhaid i chi eu cyflwyno gyda'ch adroddiad cwblhau, sef:

- Eich datganiad ariannol
- Enghreifftiau o sut aethoch ati i gydnabod cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru

Cofiwch fod y rhain yn orfodol. Maen nhw'n rhan annatod o'n hadolygiad o'ch prosiect ac ni fyddwn ni'n gallu derbyn eich adroddiad cwblhau hebddynt.

Sut i lanlwytho eich dogfennau

Defnyddiwch y ddewislen ar waelod y sgrin i lanlwytho'ch dogfennau. Mae pob un o'r dogfennau gorfodol ar y ddewislen. Mae yna gategori "arall" hefyd.

Dylid nodi na ellir lanlwytho atodiadau sy'n fwy na 25MB.

Os oes arnoch angen cymorth gyda fformatau'r dogfennau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am faterion technegol eraill, darllenwch ein Taflen Wybodaeth ar Wneud Cais Ar Lein, neu edrychwch ar ein canllaw i ddatrys problemau.

Gwybodaeth ategol arall

Mae'n bwysig ategu'r wybodaeth rydych chi wedi ei darparu yn yr adroddiad cwblhau â thystiolaeth briodol. Gallai hyn fod ar ffurf delweddau, sain neu fideo, adborth cyfranogwyr neu hyfforddeion, adolygiadau a phytiau o'r wasg ac adroddiadau gwerthuso. Dylech lanlwytho'r dystiolaeth yma, gan ddefnyddio'r categori "arall" ar y ddewislen.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

Adran 7: Adolygu fy Adroddiad Cwblhau

Mae'r adran hon yn caniatáu i chi adolygu'r wybodaeth rydych chi wedi ei nodi hyd yn hyn, a gwneud unrhyw newidiadau. Bydd ein system ar-lein yn dweud wrthych os ydych chi wedi hepgor unrhyw gwestiynau hefyd.

Os ydych chi'n fodlon ar eich adroddiad cwblhau, cliciwch **Anfon**. Bydd hyn yn anfon eich adroddiad cwblhau atom i'w adolygu.

Bydd copi o'ch adroddiad cwblhau ar gael i chi ei weld ar ein system ar-lein bob amser ar ôl i chi glicio ar y botwm anfon. Ar ôl mewngofnodi, fe welwch chi fod copi wedi ei gadw yn adran "gofynion a gyflwynwyd" ar ein system ar-lein. Cewch argraffu copi ar gyfer eich ffeil eich hun hefyd.

Ar ôl clicio **Anfon**, cewch neges gydnabod yn awtomatig trwy e-bost. Os na chewch chi'r neges, gwnewch yn siŵr nad yw hi yn eich ffolder post sothach. Os nad ydych wedi cael eich neges gydnabod o hyd, dilyswch eich adroddiad cwblhau a rhowch gynnig arall arni trwy wasgu **Anfon** eto.

Os nad ydych wedi gorffen eich adroddiad cwblhau, dylech glicio **Cadw a Gorffen Wedyn**. Cewch neges wedyn sy'n cynnwys copi o'ch adroddiad cwblhau drafft. Dylech gadw'r neges e-bost hon i gyfeirio ati.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys